**Ymateb y Llywodraeth: *Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022***

Pwyntiau Craffu Technegol 1, 2, 4, 5, 6 (ond gweler yr ymateb isod), 7 i 17, 19, 20 i 24, 26, 28 i 31:

*Ymateb*

Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ei ddiwydrwydd ac mae wedi ystyried y pwyntiau a godwyd. Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol wedi'u tynnu'n ôl, eu cywiro (mewn perthynas â'r Pwyntiau Adrodd a restrir uchod) a'u hailosod.

Pwynt Craffu Technegol 3:

*Ymateb*

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen mewnosod "in England" ar ôl yr ail achos lle y mae "dwelling-house" yn ymddangos yn adran 1(1) o Ddeddf Tai 1988. Yn ein barn ni, mae'n amlwg o'r diwygiad arfaethedig i adran 1(1) o Ddeddf 1988 mai ystyr tŷ annedd "*dwelling-house*" yn y cyd-destun hwnnw yw tŷ annedd yn Lloegr. Yn ein barn ni, nid oes angen diwygiad.

Pwynt Craffu Technegol 6 (yn rhannol):

*Ymateb*

Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi nodi bod gwall yn y dyfynodau agoriadol a'r dyfynodau cloi o amgylch y geiriad sydd i'w fewnosod gan reoliad 11(25). Mae Llywodraeth Cymru yn anghytuno ac o'r farn bod y dyfynodau mewn perthynas ag 11(25) yn gywir.

Pwynt Craffu Technegol 18:

*Ymateb*

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod rheoliad 22(4)(b) yn gywir. Diffinnir y term "fundamental provision" yn adran 18 o Ddeddf 2016 ac mae'r cyfeiriad at adran 19 wedi'i gynnwys er mwyn cynorthwyo'r darllenydd. Cadarnheir y dull hwn gan y Mynegai a welir yn adran 253 o Ddeddf 2016.

Pwynt Craffu Technegol 25:

*Ymateb*

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai rheoliad 32 (sy'n gwneud diwygiadau i Ddeddf Atal Twyll Tai Cymdeithasol 2013) wneud diwygiadau i'r termau "tenants" na "tenancy" (i gynnwys cyfeiriad at "contract-holder" ac "occupation contract"). Gan fod y darpariaethau hyn yn ymwneud â throseddau, mae'r drafftio presennol yn adlewyrchu bwriad polisi Llywodraeth Cymru na ddylid estyn y darpariaethau i bersonau sy'n rhentu cartref yng Nghymru o dan drwydded (a fyddai'n digwydd yn sgil cynnwys cyfeiriad at "contract-holder" ac "occupation contract"). Dim ond i gontractau

meddiannaeth sy'n denantiaethau y dylent barhau i fod yn gymwys. Yn ogystal, mae'r diwygiadau i'r darpariaethau o dan Ddeddf Diogelu Defnyddwyr 2015 (fel y'u diwygir gan Reoliad 34) i gynnwys "contract-holder" ac "occupation contract" yn adlewyrchu bwriad polisi Llywodraeth Cymru i estyn y diogeliadau o dan y darpariaethau perthnasol i bob deiliad contract fel nad oes gwahaniaeth rhwng tenantiaethau a thrwyddedau.

Pwynt Craffu Technegol 27:

*Ymateb*

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai rheoliad 33(2) gyfeirio at gyfran tenant. Mae'r drafftio presennol yn adlewyrchu'r geiriad yn y diffiniad o "tenantiaeth ddomestig" a nodir yn adran 2(1)(a)(ii) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 32:

*Ymateb*

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw wybodaeth ynghylch pryd y daw darpariaethau perthnasol Deddf Tai a Chynllunio 2016 i rym.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 33:

*Ymateb*

Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ei ddiwydrwydd ac mae wedi ystyried y pwyntiau a godwyd o ran y troednodiadau. Mae'r Offeryn Statudol wedi'i dynnu'n ôl, ei gywiro (yn enwedig mewn perthynas â'r pwyntiau penodol a godwyd ynghylch troednodiadau) a'i hailosod.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 34:

*Ymateb*

Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ei ddiwydrwydd ac yn nodi'r sylwadau a wnaed. Gwneir ymdrech i gadw at y canllawiau drafftio a nodir yn "Drafftio Deddfau i Gymru" lle bynnag y bo modd.